Y CRIW Mentrus
Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

YSGOL SAN SIÔR
YSGOL GYNRADD
GYMORTHEDIG YR EGLWYS,
LLANDUDNO

YSGOL SAN SIÔR

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgorffori Menter
# Datblygu Cyfranwyr Creadigol
## Plant Cynradd Is



Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

Busnes Cymru | Business Wales

Noddwr Cyswllt
Associate Sponsor
NatWest Cymru

# Ymgorffori Menter
# Datblygu Cyfranwyr Creadigol
# Plant Cynradd Is

Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi mewnwelediad i ymgorffori mentergarwch gyda phlant cynradd is yn Ysgol San Siôr a'u datblygu fel Cyfranwyr Creadigol.

**"Mae mentrau ysgol wrth galon ein cwricwlwm creadigol."**



# Datblygu Cyfranwyr Creadigol

**Ychydig enghreifftiau o'n mentrau**

- Mel San Siôr
- Sw San Siôr
- Wyau San Siôr
- Cardiau Bach Enlli
- Haulfre Bakes
- Ocean Inspired Art & Bee Bombs
- Dandelion Vegan Honey
- Caban Celf
- Bee Mindful
- Ember Art
- Tatws Conwy
- Chutney San Siôr



# Gweithgaredd 1

Gellid ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol o fewn dosbarthiadau unigol neu eu defnyddio ar draws yr ysgol, yn dibynnu ar faint yr ysgol.

- Dechreuwch drwy ddatblygu’r disgwyliad ac ennyn diddordeb pawb – plant a staff.
- Gwnewch bethau'n real drwy drafod syniadau menter posibl
- Ymchwiliwch syniadau eraill ar-lein
- Gwnewch restr  o syniadau a gofynnwch i'r plant mewn grwpiau ddewis y rhai maent yn ystyried y byddai’n gwneud y mwyaf o arian.
- Ewch â’r rhestr fer ymlaen i’r broses ddethol derfynol yng Ngweithgaredd 2.








# Gweithgaredd 2

Nawr mae'n bryd cyfyngu'r syniadau i 3 neu 4 y gellir eu hystyried yn fanylach. Mae hyn yn rhoi cychwyn ar gynllunio'r fenter:

- Defnyddiwch rifedd bywyd go iawn trwy brisio'r cynnyrch.
- Cynhaliwch ymchwil marchnad i weld pa gynnyrch fyddai'n fwyaf gwerthadwy i ddisgyblion/oedolion.
- Edrychwch ar sut i ddarganfod adnoddau i wneud y cynnyrch.









# Gweithgaredd 3

- Penderfynwch ar un cynnyrch i ganolbwyntio arno.
- Dyluniwch enw a logo ar gyfer eich busnes.






# Gweithgaredd 4

- Cynhyrchwch rai samplau i'w defnyddio ar gyfer ymchwil marchnad a gweithgaredd marchnata.
- Cynhyrchwch ffordd o gofnodi neu gymryd archebion.
- Byddwch yn wyliadwrus wrth baratoi cynnyrch cyn gwerthiant er mwyn osgoi gwarged a lleihau elw.

















# Gweithgaredd 5

- Cynlluniwch a chynnal digwyddiad i roi cyhoeddusrwydd i'ch menter newydd.
- Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol fel dull cadarnhaol i dyfu eich busnes.
- Ystyriwch wahodd rhieni i neuadd yr ysgol neu gosodwch stondin y tu allan yn ystod amser mynd adref i hysbysebu eich cynnyrch.










# Gweithgaredd 6

- Cynlluniwch sesiwn/sesiynau i gyflawni archebion.
- Paratowch a pharhau i dderbyn archebion wrth sicrhau y gellir cynnal stoc a gweithgynhyrchu.
- Yn dibynnu ar eich cynnyrch, bydd angen i chi neilltuo amser yn ystod, ac o bosibl y tu allan i oriau ysgol, i gynhyrchu stoc.
- Yn Ysgol San Siôr cynllunnir y sesiynau hyn yn ystod y diwrnod ysgol yn ogystal ag yn ystod ein clybiau menter ar ôl ysgol.









# Gweithgaredd 7

- Edrychwch i'r gymuned ehangach i weld lle gellir stocio eitemau.
- Cysylltwch â siopau, bwytai, gwestai i roi cyfleoedd i'r plant siarad â'r gymuned am eu menter.
- Cefnogwch y disgyblion i gysylltu trwy e-bost a/neu dros y ffôn a chynllunio ar gyfer ymweliadau.
- Cysylltwch ag elusennau lleol a'u cefnogi. Mae Ysgol San Siôr yn cefnogi Mind Conwy, Young Minds, banc bwyd lleol a’r RNLI.







# Awgrymiadau ar gyfer creu menter gyda Phlant Cynradd Is

Gwnewch y prosiect yn berthnasol i'r plant gyda chynnyrch perthnasol maent yn ei ddeall, ac yr hoffent hwy neu eu teulu ei brynu.

## Syniadau Da

- Rhowch y cyfrifoldeb yn nwylo'r plant.
- Cynnwys y dosbarth cyfan gan fod hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn elwa o'r profiad a hefyd yn creu marchnad fwy ar gyfer gwerthiant trwy rieni.
- Rhaid cael cynnyrch sy'n hawdd ei reoli a’i gynhyrchu o ran amser.
- Sicrhewch eich bod yn gallu ymdopi â chynhyrchu a danfon eich cynnyrch.
- Cynhaliwch gyfarfodydd wythnosol i addasu a chael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.
- Ystyriwch a ellir cynhyrchu swmp o eitemau a'u storio.



# Awgrymiadau ar gyfer creu menter gyda Phlant Cynradd Is

- Ystyriwch gynnal sesiwn menter wythnosol i gyflawni archebion ac os oes angen, sesiwn ar ôl ysgol i gynhyrchu stoc.
- Cysylltwch â digwyddiad elusennol neu gymunedol. Gallai menter pob dosbarth gefnogi elusen wahanol neu elusen sy’n ddewis ysgol gyfan.
- Cynhyrchwch eitemau sy'n effeithiol o ran cost ac o ran amser– cynnyrch sy'n gymharol rad i'w wneud ac yn gyflym i'w werthu.
- Meddyliwch hefyd am storfa o fewn y dosbarth, felly eitem y gellir ei storio'n hawdd.
- Er mwyn ei ailwerthu cymaint â phosibl, meddyliwch am gynnyrch tymhorol y gellir ei addasu a’i werthu yn ystod tymhorau amrywiol, er enghraifft adeg y Nadolig, y Pasg, Sul y Mamau.
- Ystyriwch bedwar diben y cwricwlwm a chysylltwch eich gwaith â phob pwrpas.
- Galluogwch y  plant i fynd i’r afael â MDaPh o fewn Dinasyddion Moesegol Gwybodus y Byd.

## Ac yn bennaf oll…

**MWYNHEWCH!!!**

